# POLISI DIOGELU GRWPIAU AGORED I NIWED

Dyddiad Cychwyn: [MEDI / 2018]

Dyddiad Adolygu Diwethaf: [Gorffennaf / 2024]

Dyddiad Adolygu Nesaf: [Rhagfyr / 2025]

Perchennog y Polisi: [Cwsmeriaid a Chymunedau ]

Pwynt Cyswllt y Polisi: [Sarah Schofield, sarah.schofield@adra.co.uk]

## CYNNWYS

1. PWRPAS

2. CWMPAS

3. CYFRIFOLDEBAU

4. MANYLION Y POLISI

5. CWYNION

6. ADOLYGU PENDERFYNIAD

7. COFNOD O ADOLYGIAD I'R BROSES HON

8. CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

9. DIFFINIADAU AC ACRONYMAU

10. CYFEIRNODAU

11. COFNODION

12. ADOLYGU

## 1. PWRPAS

1.1 Mae diogelu yn golygu amddiffyn plant ac oedolion rhag camdriniaeth neu esgeulustod ac addysgu'r rheini sydd o'u hamgylch i adnabod yr arwyddion a pheryglon.

1.2 Pwrpas y polisi hwn yw:

- nodi sut y bydd Adra (Tai) Cyf yn ymdrin â Diogelu Grwpiau Agored i Niwed sy'n cynnwys oedolion a phlant sydd mewn risg.
- rhoi diffiniad clir o'r term grwpiau agored i niwed, cam-drin ac esgeulustod.
- sicrhau cysondeb wrth atal, adnabod, adrodd ac ymateb i faterion diogelu.

1.3 Mae Adra yn cydnabod ei gyfrifoldeb i ddiogelu grwpiau agored i niwed rhag niwed. Prif amcan y polisi yw amddiffyn a hyrwyddo lles bob grŵp agored i niwed.

1.4 Mae'r polisi hwn yn cefnogi ac yn atgyfnerthu polisïau Adra sydd wedi eu rhestru yn adran 8 ynghyd â deddfwriaeth bresennol a chanllaw'r llywodraeth sydd wedi eu cynnwys yn y Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008, Gweithdrefnau Diogelu Cymru , a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Mae Adra hefyd yn gweithio gyda phartneriaid lleol i gael cysondeb gyda fframweithiau a phrotocolau sydd wedi eu cytuno yn lleol.

## 2. CWMPAS

2.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl gwsmeriaid, darpar gwsmeriaid a phreswylwyr eiddo sy'n berchen i Adra neu bobl eraill lle tybir eu bod mewn risg. Mae'n gymwys i staff Adra hefyd.

2.2 Bydd y polisi yn cefnogi staff Adra wrth ddiogelu lles grwpiau agored i niwed sy'n cynnwys plant, pobl ifanc ac oedolion y mae ganddynt gyswllt gyda nhw drwy eu gwaith a gweithgareddau cysylltiol a bydd hefyd yn darparu arweiniad a chefnogaeth i ddiogelu eu hunain rhag honiadau.

2.3 Bydd y Polisi yn gymwys i Adra (Tai) Cyf (y Rhiant) ac unrhyw un o'i is-gwmnïau (gan gynnwys Medra Cyf).

## 3. CYFRIFOLDEBAU

3.1 Cyfrifoldeb y Cyfarwyddwr Cwsmeriaid a Chymunedau a'r Cyfarwyddwr Pobl a Cyfathrebu yw sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei weithredu yn effeithiol a bod staff Adra wedi eu hyfforddi yn briodol yn y gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn. Bydd holl Staff Adra yn cwblhau Cwrs Ymwybyddiaeth Diogelu ar lein, wedi ddatblygu yn unol a chanllawiau Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru, pob dwy flynedd. Bydd Staff newydd yn cwblhau'r Hyfforddiant fel rhan o'i Anwythiad Corfforaethol. Caiff Swyddogion Diogelu Dynodedig i darparu efo hyfforddiant manylach i'w gwblhau pob dwy flynedd.

3.2 Gellir canfod dogfennau cefnogol yn adran 8 o'r polisi yma.

## 4.0 MANYLION Y POLISI

4.1 Un o egwyddorion pwysicaf diogelu yw bod hyn yn gyfrifoldeb ar bawb. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob gweithiwr proffesiynol a sefydliad i wneud popeth y gall i sicrhau bod plant ac oedolion sydd mewn risg yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth.

4.2 Mae Adra yn cydnabod bod gan grwpiau agored i niwed yr ydym ni'n darparu gwasanaethau iddynt yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod, a'r safon gorau un o ofal.

4.3 Mae Adra wedi ymrwymo i amddiffyn grwpiau agored i niwed ac ymdrin â honiadau, pryderon neu ddatgelu camdriniaeth neu esgeulustod yn effeithiol.

4.4 Gall camdriniaeth ddigwydd mewn sawl ffordd gan gynnwys:

- Cam-drin corfforol
- Cam-drin domestig neu drais
- Cam-drin rhywiol
- Cam-drin seicolegol neu emosiynol
- Cam-drin ariannol neu faterol
- Caethwasiaeth Fodern
- Cam-drin gwahaniaethol
- Cam-drin sefydliadol
- Esgeulustod neu anwaith
- Hunan-esgeulustod

Caiff y diffiniadau uchod o gam-drin eu pennu gan y Sefydliad Gofal Cymdeithasol ar gyfer Rhagoriaeth

4.5 Dyletswydd i adrodd - Os oes gan Adra achos rhesymol i amau bod plentyn neu oedolyn:

- yn profi neu mewn risg o gamdriniaeth neu esgeulustod neu fathau eraill o niwed
- ag angen gofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod lleol yn diwallu'r anghenion hyn), ac
- (yn achos oedolion yn unig) o ganlyniad i'r anghenion hynny yn methu amddiffyn ei hun rhag camdriniaeth neu esgeulustod neu'r risg o hynny ddigwydd

4.6 bydd Adra yn hysbysu'r awdurdod lleol perthnasol o'r ffaith honno.

4.7 Bydd Adra yn dynodi Arweinwyr Diogelu Grwpiau Agored i Niwed sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau yn ymwneud â Diogelu. Bydd cydgysylltwyr Diogelu Grwpiau Agored i Niwed yn cynorthwyo rôl yr Arweinwyr Diogelu Grwpiau Agored i Niwed.

4.8

| **Arweinwyr Diogelu Grwpiau Agored i Niwed Dynodedig** | **Cydgysylltwr Diogelu Grwpiau Agored i Niwed Dynodedig** |
|---|---|
| Cyfarwyddwr Cwsmeriaid a Chymunedau - ar gyfer materion cwsmeriaid | Rheolwr Cynorthwyol Gwasanaethau Bro |
| Cyfarwyddwr Pobl a Cyfathrebu- ar gyfer materion staffio | Cydlynwyr Tai Cymunedol |
| | Cydlynwyr Tai Cefnogol |

4.9 Bydd bob achos yn cael ei asesu yn unigol gan fod pa mor agored i niwed yw unigolyn yn ddibynnol ar eu hamgylchiadau a'u hamgylchedd. Rhoddir ystyriaeth:

- i farn sydd wedi'i ddatgan, dymuniadau, teimladau, a'r canlyniadau sy'n cael eu ffafrio ar gyfer yr unigolyn.
- i ba mor fregus neu agored i niwed ydi'r person sydd mewn risg;
- maint y gamdriniaeth neu esgeulustod;
- hyd yr amser ac amlder y digwyddiad;
- effaith ar yr unigolyn;
- risg o hyn yn digwydd dro ar ôl tro neu waethygu gan gynnwys y grŵp hwn neu grwpiau eraill sydd mewn risg.

4.10 Bydd Adra yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u dyletswydd i adrodd a'r gofyniad iddynt hysbysu unrhyw bryderon sydd ganddynt yn unol ag HSp54c - Proses ar gyfer Adrodd Cam-drin Posib Grwpiau Agored i Niwed.

4.11 Mae dangosyddion cam-drin ac esgeulustod wedi eu nodi yn Y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth. Mae Adra yn cydnabod nad yw dangosyddion cam-drin yn golygu yn bendant bod cam-drin wedi/yn digwydd. Fodd bynnag, mae Adra yn gofyn i'w staff, os oes ganddynt achos rhesymol i amau bod plentyn neu oedolyn mewn risg, i rannu eu pryderon yn fewnol.

4.12 **Canllawiau am blant ac oedolion mewn risg** - bydd Adra yn rhoi sylw priodol i unrhyw ganllawiau perthnasol a phrotocolau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, Byrddau Diogelu, ac awdurdodau lleol perthnasol.

4.13 **Cyfrinachedd** - Bydd Adra yn cadw cyfrinachedd wrth ymdrin â materion o ddiogelu ond efallai y bydd yn rhannu gwybodaeth ag asiantaethau partner yn unol â deddfwriaeth berthnasol a phrotocolau sydd wedi eu cytuno. Mae rhannu a chyfnewid gwybodaeth berthnasol yn effeithiol rhwng pobl broffesiynol yn hanfodol er mwyn diogelu grwpiau agored i niwed.

4.14 Fel arfer, ni fyddai Adra yn rhannu gwybodaeth bersonol heb gydsyniad y person neu warchodwr fel sy'n briodol (oni bai bod 5.13 yn gymwys). Bydd cofnod yn cael ei gadw o'r holl wybodaeth bersonol a rennir at ddibenion diogelu. Bydd y cofnod hwn yn cynnwys sut y rhoddwyd y cydsyniad i rannu gwybodaeth, gyda phwy y rhennir yr wybodaeth, a sut y mae'r wybodaeth wedi'i rannu.

4.15 Efallai y bydd rhai amgylchiadau lle mae rhannu gwybodaeth gyfrinachol heb gydsyniad yn cael ei gyfiawnhau er budd yr unigolyn a'r cyhoedd. Er enghraifft lle mae achos rhesymol i dybio bod plentyn neu oedolyn mewn risg o ddioddef niwed mawr, neu i'w rhwystro rhag niwed mawr. Yn ogystal, lle mae trydydd parti wedi'i roi mewn risg, a lle mae amheuaeth bod trosedd wedi digwydd / lle mae trosedd wedi digwydd.

4.16 **Darparu gwybodaeth y gofynnir amdano gan y Byrddau Diogelu -** bydd Adra yn cydymffurfio gyda chais a wneir gan y Bwrdd Diogelu i ddarparu gwybodaeth benodol oni bai y byddai gwneud hynny:

- Yn anghydnaws â dyletswyddau Adra, neu
- Fel arall yn cael effaith andwyol ar y modd y caiff swyddogaethau Adra eu hymarfer

4.17 Os ydi Adra yn penderfynu peidio â chydymffurfio gyda chais am wybodaeth, bydd yn rhoi rheswm (rhesymau) ysgrifenedig i'r Bwrdd Diogelu am ei benderfyniad.

4.18 Bydd Adra yn cydymffurfio yn ag asiantaethau a phartneriaid eraill wrth ymdrin â materion diogelu

4.19 Caiff Adra ei gynrychioli mewn Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol (CARA) a mynychu cynadleddau achos Gwasanaethau Cymdeithasol a chyfarfodydd pan fydd gofyn.

4.20 **Recriwtio** - Mae manylion llawn recriwtio wedi eu cynnwys ym mholisi Recriwtio a Dewis Adra.

4.21 Bydd unrhyw benodiad i swydd sydd â chyswllt rheolaidd, gyda grwpiau agored i niwed yn ddarostyngedig i dderbyn datgeliad Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Bydd unrhyw benodiad sy'n gosod unigolyn mewn rôl sy'n cael ei ddiffinio fel gweithgaredd a reolir gan y DBS yn ddarostyngedig i wiriad DBS a gwiriad rhestr waharddedig briodol i'r grŵp oedran y byddant yn gweithio gyda hwy. Gellir canfod arweiniad ar hyn mewn dogfen ar wahân o'r enw cynnal Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd HRg01c

4.22 Os oes gan ddarpar weithiwr gofnod troseddol, bydd Adra yn mabwysiadu dull yn seiliedig ar risg wrth benderfynu penodi'r unigolyn ai pheidio. Bydd pa mor ddifrifol yw'r drosedd a'r amser sydd wedi mynd heibio ers y drosedd yn cael ei ystyried yn unol â Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974,

4.23 Ar ôl penodi, bydd Adra yn diweddaru gwiriad DBS cyflogai bob 3 blynedd, oni bai bod pryderon ac amgylchiadau yn gofyn bod hyn yn digwydd yn amlach gyda chydsyniad y cyflogai. Yn unol â rheoliadau GDPR, bydd tystysgrifau DBS ond yn cael eu dal am 6 mis.

4.24 **Hyfforddiant** - Bydd staff sy'n ymdrin â grwpiau agored i niwed yn derbyn diweddariadau hyfforddi rheolaidd ar ymdrin ag achosion o gam-drin. Bydd hyfforddiant yn cyd-fynd â chanllaw cenedlaethol a gofynion hyfforddi ar gyfer staff mewn perthynas â Diogelu Grwpiau Agored i Niwed ar y lefelau hyfforddi sydd wedi eu hadnabod. Yn ogystal, anfonir Bwletinau Staff rheolaidd at bob aelod o staff i godi ymwybyddiaeth o faterion diogelu posibl a sut i roi gwybod am unrhyw bryderon.

4.25 Bydd hyfforddiant codi ymwybyddiaeth bellach yn cael ei gynnal gan y cydgysylltwyr Diogelu Grwpiau Agored i Niwed drwy fforymau fel sgyrsiau bocs offer ac ati.

4.26 **Staff** - Mae gan Adra weithdrefnau ar waith ar gyfer ymdrin â honiadau yn erbyn staff; ac i ddiogelu staff sy'n codi pryderon difrifol am gamarfer posib (chwythu'r chwiban).

4.27 **Cyflenwyr** - Bydd pob prosiect caffael yn cael ei asesu ar gyfer risgiau diogelu, a bydd Adra yn annog safonau diogelu yn ein cyflenwyr i sicrhau bod grwpiau bregus yn cael eu hamddiffyn, yn unol â safonau a disgwyliadau Adra. Lle darperir gwasanaethau gan drydydd parti, mae Adra yn disgwyl i drydydd parti gydymffurfio â'n polisïau mewnol a'r holl ddeddfwriaeth berthnasol mewn perthynas â diogelu grwpiau agored i niwed. Caiff cymalau contract diogelu eu cynnwys mewn contractau lle'n briodol.

4.28 Lle'n berthnasol, bydd gofyn i gyflenwyr gael polisïau a gweithdrefnau diogelu ar waith (gan gynnwys recriwtio staff ac is-gontractwyr, gweithdrefnau dewis a fetio) a system cyn dyfarnu contract iddynt.

4.29 Lle, drwy ddarparu gwasanaethau i Adra, mae gan gyflogai cyflenwr bryderon mawr o ran diogelu grwpiau agored i niwed, rhaid iddynt godi eu pryder yn unol â gweithdrefnau mewnol a roddwyd ar waith gan eu cwmni. Os nad oes gweithdrefnau o'r fath yn bodoli, disgwylir i'r darparwr gwasanaeth hysbysu'r Awdurdod Lleol perthnasol.

## 5. CWYNION

5.1 Mae Adra yn cydnabod eich hawl i ddwyn ymlaen cwyn am ymarfer y polisi hwn. Bydd unrhyw gŵyn o'r fath yn cael ei drin o dan CCpol01c - Polisi Cwynion a Phryderon.

5.2 Byddwn yn sicrhau bod unrhyw benderfyniadau sy'n berthnasol i'r polisi hwn yn rhesymol ac yn cydymffurfio â pholisi a deddfwriaeth berthnasol

## 6. ADOLYGU PENDERFYNIAD

6.1 Mae Adra yn cydnabod yr hawl i ofyn am adolygu unrhyw benderfyniad sy'n ymwneud â'r polisi hwn. Bydd unrhyw adolygiad o'r fath yn cael ei drin yn dilyn ein proses Adolygu Penderfyniad - CCp04c.

6.2 Bydd Adra yn sicrhau bod unrhyw benderfyniadau sy'n berthnasol i'r polisi hwn yn rhesymol ac yn cydymffurfio â pholisi a deddfwriaeth berthnasol.

## 7. COFNOD O ADOLYGIAD I'R BROSES HON

| **Rhifyn** | **Date** | Sylwadau (Beth sydd wedi'i adolygu/) | Ysgrifennwyd gan | Cymeradwyo ar gyfer cynnwys |
|---|---|---|---|---|
| *1* | *2017* | *Polisi newydd* | *ER* | *SLT* |
| *2* | *09/18* | GDPR, ac i gydymffurfio gyda Chanllawiau Llywodraeth Cymru | ER | - |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3 | 09/19 | Diweddaru'r polisi i gyfeirio at Adra a'r is-gwmni | ER | - |
| 4 | 10/19 | Disgrifiad o swyddi sydd angen gwiriad DBS | DW | - |
| 5 | 11/19 | Diweddariad pellach ar ôl ymgynghoriad SLT | DW | SLT |
| 6 | 12/19 | Cynnwys sylwadau a gafwyd gan swyddog diogelu Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | DW | - |
| 7 | 12/22 | Adolygiad tair blynedd o'r ddogfen | GJ | SLT |
| 8 | 12/23 | Cynnwys amlder Hyfforddiant fel awgrym Awdit | GJ | GJ |
| 9 | 07/24 | Diweddaru Swydd deitlau a chyfrifoldebau | GJ | Grŵp Diogelu |
| 10 | 09/24 | Cywiro rhan 4.21 – tynnu 'manylach' o ddatgeliad Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) | GJ | GJ |

## 8. CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

8.1 Wrth weithredu'r polisi hwn, bydd Adra yn ymrwymo i ymdrin â phob unigolyn yn deg ac yn unol â'i bolisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

8.2 Ein hamcan yw ymateb yn brydlon a sensitif i anghenion a hawliau unigolyn gan ystyried hil a chefndir diwylliannol, rhywedd, cred grefyddol, rhywioldeb, oed ac anabledd.

## 9. DIFFINIADAU AC ACRONYMAU

9.1 Mae Adra yn darparu'r diffiniadau canlynol o bobl sy'n cael eu hystyried fel eu bod mewn grwpiau **agored i niwed**:

- Caiff oedolyn **agored i niwed** ei ddiffinio fel rhywun sy'n 18 mlwydd oed neu'n hŷn sydd angen gwasanaethau gofal y gymuned neu gall fod angen oherwydd problemau iechyd meddwl, anawsterau dysgu neu anabledd arall, oed neu salwch; neu sydd ddim neu efallai ddim yn gallu gofalu amdanynt eu hunain neu amddiffyn eu hunain rhag niwed neu gael eu hecsbloetio.
- Caiff **plentyn neu berson ifanc** ei ddefnyddio i gyfeirio at rywun o dan 18 mlwydd oed

9.2 Mae'r term '**staff**' yn cyfeirio at staff llawn amser a staff rhan amser, gweithwyr parhaol neu dros dro i Adra yn ogystal â staff asiantaeth, gwirfoddolwyr a rhai ar brofiad gwaith gydag Adra.

9.3 mae "**cam-drin**" yn golygu camdriniaeth gorfforol, rywiol, seicolegol, cymhellol neu ariannol (ac yn cynnwys cam-drin yn digwydd mewn unrhyw le, boed yn annedd preifat, sefydliad neu unrhyw le arall), ac mae "camdriniaeth ariannol" yn cynnwys:

- cael arian neu eiddo arall wedi'i ddwyn;
- cael eich twyllo;
- cael eich rhoi o dan bwysau mewn perthynas ag arian neu eiddo arall;
- camddefnydd o arian neu eiddo arall.

9.4 Mae “**esgeulustod**” yn golygu’r anallu i gwrdd ag anghenion corfforol a/neu feddyliol sylfaenol person ifanc neu oedolyn a all olygu nam difrifol i’w llesiant (er enghraifft, amhariad ar iechyd unigolyn, neu, yn achos plentyn amhariad ar ddatblygiad plentyn).

9.5 **CARA** – Cynhadledd Asesiad Risg Amlasiantaethol

## 10. CYFEIRNODAU

10.1 Wrth lunio’r polisi hwn rydym wedi cyfeirio at y cyhoeddiadau a deddfwriaethau canlynol:

10.2 Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998

10.3 Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006

10.4 Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008

10.5 http://www.northwalessafeguardingboard.wales/policies-and-procedures/

10.6 Deddf Cydraddoldeb 2010

10.7 Deddf Diogelu Rhyddid 2012

10.8 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014,

10.9 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015

10.10 Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015,

10.11 Gweithio gyda’n gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 1 - Cyflwyniad a throsolwg hefyd cyfrol 5 a 6 Ymdrin ag Achosion Unigol https://socialcare.wales/hun/statutory-guidance

10.12 NSpol01c - Polisi Cam-drin Domestig

10.13 NSpol01c - Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Throsedd Casineb

10.14 HRp04c - Rheoli Recriwtio

10.15 LDpol01c - Polisi Dysgu a Datblygu

10.16 HRp07c – Gweithdrefn Disgyblu a Chwyno

10.17 HRpol11c - Cod Ymddygiad

10.18 Hrpol18c - Polisi Chwythu'r Chwiban

10.19 CCpol01c - Polisi Cwynion a Phryderon

10.20 EDpol01c - Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

10.21 Hsp54c - Map Proses ar gyfer adrodd ar amheuaeth o gamdriniaeth Grwpiau Agored i Niwed

10.22 Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 2014

10.23 Gweithgaredd a reolir a gwiriadau DBS

10.24 Sefydliad Gofal Cymdeithasol ar gyfer Rhagoriaeth https://www.scie.org.uk/safeguarding/adults/introduction/types-and-indicators-of-abuse

10.25 Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019) http://www.myguideapps.com/projects/wales_safeguarding_procedures/default/

10.26 Canllawiau ar gyfer cynnal gwiriadau Datgelu a Gwahardd HRg01c.

10.27 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

## 11. COFNODION

11.1 Mae'n bwysig bod cofnodion yn ymwneud â honiadau o gam-drin yn cael eu storio yn ddiogel. Bydd cofnodion electronig ond yn cael eu cadw yn y system rheoli tai.

## 12. ADOLYGU

12.1 Bydd y weithdrefn hon yn cael ei hadolygu bob 3 blynedd, neu mewn ymateb i newidiadau i ddeddfwriaeth, canllaw rheoliadol, arfer da neu newidiadau i bolisi arall perthnasol gan Adra (Tai) Cyf.